IAITH

NEWYDDION IAITH

MANYLION >

CYNHADLEDD ICML XIX CYMRU

Eleni, rhwng 20fed a 24ain o Fehefin, bydd Cymru yn cynnal y Gynhadledd Ryngwladol ar Ieithoedd Lleiafrifol. Mae'n ddeng mlynedd ar hugain ers i'r gynhadledd gael ei chynnal yng Nghymru ddiwethaf. Cynhelir y gynhadledd yng Nghaerfyrddin gan.....

MANYLION >

LLWYBRAU AT Y GYMRAEG

Mae Prosiect Llwybrau at y Gymraeg yn codi ymwybyddiaeth ynghylch darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog i oedolion a phlant mudol yng Nghymru. Y nod yw gwella mynediad at y.....

MANYLION >

DATHLU PEN-BLWYDD IAITH YN 30 OED

Sefydlwyd IAITH ar Ddydd Gŵyl Dewi 1993. Rydym wedi cael y pleser o gefnogi, cynghori a chydweithio gyda mudiadau, busnesau, elusennau a sefydliadau o fewn Cymru a thu hwnt dros y 30ain mlynedd diwethaf.

Fe wnaethom ryddhau cyfres ar ein cyfryngau cymdeithasol yn dathlu ac yn cyflwyno ein haelodau staff a'n hymgynghorwyr cysylltiol.

I ddathlu ymhellach, rydym wedi creu podlediad arbennig sydd wedi ei gyflwyno gan Gareth Ioan a Iolo Jones. Mae'r podlediad yn trafod sefydlu IAITH a'i ddatblygiad dros y blynyddoedd, tra'n edrych tuag at ddyfodol IAITH. Os hoffech gael cipolwg ar daith IAITH dros y 30 mlynedd diwethaf, yna mae'r podlediad hwn yn un yr ydym yn gobeithio.....

MANYLION >

ADNODD HUNAN ASTUDIO A PHECYNNAU GWYBODAETH CROESO I BAWB

Datblygwyd prosiect Croeso i Bawb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r prosiect yn cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn.....

MANYLION >

CYNHADLEDD COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL 2023

Cynhaliodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei chynhadledd gyntaf a oedd yn rhoi llwyfan i drafod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau ar Fai 18eg yn Cornerhouse Caerdydd.

Fel rhan o'r gynhadledd, roedd Dr Osian Elias, o IAITH, wedi'i wahodd i....



CYNHADLEDD ICML XIX CYMRU

Eleni, rhwng 20fed a 24ain o Fehefin, bydd Cymru yn cynnal y Gynhadledd Ryngwladol ar Ieithoedd Lleiafrifol. Mae'n ddeng mlynedd ar hugain ers i'r gynhadledd gael ei chynnal yng Nghymru ddiwethaf. Cynhelir y gynhadledd yng Nghaerfyrddin gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae'r gynhadledd yn un sylweddol, gan gyfuno ystod eang o bapurau academaidd, paneli a phosteri, a chyflwyno profiad sosioieithyddol penodol o'r Gymru gyfoes i gyfranogwyr. Bydd cyfle hefyd i rannu gwybodaeth fanwl am astudiaethau achos sy'n seiliedig ar ymarferwyr, yn ogystal â chyfleoedd i rwydweithio a meithrin cysylltiadau.

Yn y gynhadledd, bydd Dr Osian Elias, o IAITH, yn cyflwyno papur ymchwil am ei brosiect ymchwil ar y Pop Up Gaeltacht. Cynigia'r prosiect sylw i siaradwyr newydd o'r Wyddeleg ac i ddatblygiad diweddar peuoedd defnydd iaith dros dro ac achlysurol y Pop Up Gaeltacht.

Ariennir y prosiect gan Cronfa Goffa Saunders Lewis.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect a'r gronfa dilynwch y ddolen: Enillwyr - Cronfa Goffa Saunders Lewis

Am ragor o wybodaeth am y gynhadledd dilynwch y ddolen: XIX Cynhadledd Ryngwladol ar Ieithoedd Lleiafrifol (ICML) | University of Wales Trinity Saint David (uwtsd.ac.uk)





Gwasanaethau Dylunio IAITH

Hoffem glywed am eich prosiect, a'ch cynorthwyo i ddal sylw cynulleidfaoedd targed i ddiwallu eich anghenion penodol chi.

Gwasanaethau Dylunio IAITH - YouTube



LLWYBRAU AT Y GYMRAEG

Mae Prosiect Llwybrau at y Gymraeg yn codi ymwybyddiaeth ynghylch darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog i oedolion a phlant mudol yng Nghymru. Y nod yw gwella mynediad at y ddarpariaeth yma. Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at ffordd newydd, unigryw, cynhwysol a Chymraeg o fynd i'r afael ag addysg iaith ac integreiddio ieithyddol.

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys dau drywydd.

Mae Trywydd 1 yn canolbwyntio ar weithgareddau cyfnewid gwybodaeth at dibenion datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer mewnfudwyr sy'n oedolion yn y sector addysg oedolion. Bydd y trywydd hwn yn cryfhau a hwyluso cyfnewid gwybodaeth a hyfforddiant rhwng ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) a Dysgu Cymraeg, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, i wella'r ddarpariaeth WSOL (Cymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill). Anelir i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ieithyddol sy'n bodoli o ran mynediad mudwyr at ddwy brif iaith Cymru. Y nod yw symud tuag at ddarpariaeth iaith sy'n cefnogi amlieithrwydd mudwyr ac sy'n grymuso mudwyr i sefydlu ffyrdd newydd o gymryd rhan a pherthyn yng Nghymru.

Mae Trywydd 2 yn canolbwyntio ar weithgareddau cyfnewid gwybodaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth teuluoedd mudol o'r Gymraeg a'u mynediad at addysg statudol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Bydd y trywydd hwn yn parhau ac yn cryfhau rhwydwaith newydd Addysg Gymraeg a Dwyieithog i Bawb/Welsh and Bilingual Education for All (AGDB/WBEA). Sefydlwyd y rhwydwaith gan Brifysgol Abertawe/IAITH yn ystod 2021-2022 gyda grant bach Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gyda'r nod o weithio tuag at fynd i'r afael â'r heriau sydd i deuluoedd mudol wrth geisio cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd chwalu'r rhwystrau i addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i fudwyr hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth amlieithog ac amlddiwylliannol yr ysgolion hyn wrth groesawu mudwyr o gefndiroedd amrywiol.

NEWYDDION IAITH

DATHLU PEN-BLWYDD IAITH YN 30 OED

Sefydlwyd IAITH ar Ddydd Gŵyl Dewi 1993. Rydym wedi cael y pleser o gefnogi, cynghori a chydweithio gyda mudiadau, busnesau, elusennau a sefydliadau o fewn Cymru a thu hwnt dros y 30ain mlynedd diwethaf.

Fe wnaethom ryddhau cyfres ar ein cyfryngau cymdeithasol yn dathlu ac yn eich cyflwyno i'n haelodau staff a'n hymgynghorwyr cysylltiol.

I ddathlu ymhellach, rydym wedi creu podlediad arbennig sydd wedi ei gyflwyno gan Gareth Ioan a Iolo Jones. Mae'r podlediad yn trafod sefydlu IAITH a'i ddatblygiad dros y blynyddoedd, tra'n edrych tuag at ddyfodol IAITH. Os hoffech gael cipolwg ar daith IAITH dros y 30 mlynedd diwethaf, yna mae'r podlediad hwn yn un yr ydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau.

Cipolwg - Podlediad Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed

Preview - Podcast Celebrating IAITH's 30th birthday

Podlediad Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed

Podcast Celebrating IAITH's 30th birthday

NEWYDDION IAITH

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Kathryn Jones

Teitl Swydd: Rheolwr Gyfarwyddwr

Gyda IAITH ers: Medi 1999

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Cydweithio gyda thîm clos o staff ac ymgynghorwyr brwdfrydig IAITH ar bob math o agwedd ar y maes polisi a chynllunio iaith mewn cydweithrediad â nifer o sefydliadau, mudiadau ac unigolion yng Nghymru a thramor.

Kathryn Jones

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Kelly Davies

Teitl Swydd: Swyddog Cyllid a Gweinyddiaeth

Gyda IAITH ers: Hydref 2005

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Cael gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg bob dydd.

Kelly Davies

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Buddug Hughes

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Addysg ac Ymchwil

Gyda IAITH ers: Medi 2018

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Cael gweithio ar ystod eang o brosiectau diddorol sy'n ymwneud â'r Gymraeg gyda sefydliadau amrywiol a gallu gweithio gyda chydweithwyr ac ymgynghorwyr hynaws a gwybodus.

Buddug Hughes

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Lucy Hope

Teitl Swydd: Swyddog Dylunio, Darlledu a Chefnogi Prosiectau

Gyda IAITH ers: Hydref 2021

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Rwy'n mwynhau defnyddio fy sgiliau creadigol yn ddyddiol trwy ddychmygu, creu a datblygu cysyniadau dylunio ar gyfer cleientiaid. Yn arbennig, rwy'n mwynhau dylunio e-ddysgu Cymraeg ac amlieithog.

Lucy Hope

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Iolo Jones

Teitl Swydd: Rheolwr Prosiectau ac Ymchwil

Gyda IAITH ers: Medi 2022

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Mae gan bob un yn y cwmni werthoedd cryfion a brwdfrydedd tros adfywio iaith, ac mae hynny'n gwefru dyn. Ar ben hynny, mae yna ddiwylliant o dryloywder, cydraddoldeb a chyfeillgarwch oddi fewn y cwmni, a dw i'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Iolo Jones

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Bethan Williams

Teitl Swydd: Rheolwr Prosiectau Hyfforddiant Iaith

Gyda IAITH ers: Ionawr 2023
a rhwng 2011 – 2016 fel rhan o dîm TWF

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Gweithio gyda thîm o bobl hawddgar, gallu gweithio oriau hyblyg a gwneud gwaith sy'n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg.

Bethan Williams

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â staff IAITH

Enw: Osian Elias

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Polisi Iaith a Newid Ymddygiad

Gyda IAITH ers: Chwefror 2023

Hoff beth am weithio gyda IAITH: Hyd yma? Y croeso a'r cydweithio agos!

Osian Elias

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dewch i gwrdd â rhai o Ymgynghorwyr Cysylltiol / Hyfforddwyr IAITH

Enw: Gareth Ioan

Rôl: Cadeirydd y Cwmni

Wedi gweithio gyda IAITH ers /
Wedi cefnogi IAITH ers: 1997

Hoff beth wrth weithio gydag IAITH /
Hoff beth wrth gefnogi IAITH:
Cael y cyfle i roi polisi a chynllunio iaith ar waith, arloesi a thorri tir newydd yn barhaus.

Gareth Ioan

Dathlu pen-blwydd IAITH yn 30 oed!

Dilynwch cyfryngau cymdeithasol IAITH i weld rhagor ...

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Fideo Academi IAITH

Cyrsiau pwrpasol i chi: Yn ogystal â darparu Rhaglen Hyfforddiant, gall IAITH ddod atoch chi i ddarparu sesiynau hyfforddi a chynnal sesiynau ar lein i gwrdd â'ch anghenion.

Academi IAITH (Cymraeg) - YouTube



ADNODD HUNAN ASTUDIO A PHECYNNAU GWYBODAETH CROESO I BAWB

Datblygwyd prosiect Croeso i Bawb gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r prosiect yn cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg.

Mae IAITH: y ganolfan cynllunio iaith wedi cydweithio gydag Optimwm i addasu'r cwrs blasu wyneb yn wyneb gwreiddiol a'i drosi yn adnodd hunan-astudio digidol sydd ar gael ar wefan dysgucymraeg.cymru.

Mae'r adnodd ar gael yma:
Croeso i Bawb

Yn ogystal â'r cyrsiau hunan astudio digidol, crëwyd pecynnau sy'n cyflwyno gwybodaeth am Gymru a'r Gymraeg - Cyflwyno Cymru. Mae chwe uned yn y pecynnau yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch Cymru ddoe a heddiw yn y meysydd canlynol:

- Pobl a Lleoedd
- Yr Iaith Gymraeg
- Celfyddydau yng Nghymru
- Bwyd Cymreig
- Straeon a chwedlau Cymru
- Lleoliadau, gofodau a chwaraeon

Mae'r pecyn gwybodaeth ar gael mewn pum iaith ar ffurf modiwl hunan-astudio.

Cliciwch ar y dolenni i weld y pecynnau yn y pum iaith ar safle dysgucymraeg.cymru:

Wcreineg
Cantoneg
Arabeg Syria
Farsi
Pashto

CYNHADLEDD COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL 2023

Cynhaliodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei chynhadledd gyntaf a oedd yn rhoi llwyfan i drafod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau ar Fai 18eg yn Cornerhouse Caerdydd.

Fel rhan o'r gynhadledd, roedd Dr Osian Elias, o IAITH, wedi'i wahodd i gyflwyno ar newid ymddygiad er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n dewis dilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd cyflwyniad Osian yn trafod y defnydd o gofrestru di-ofyn neu awtomatig, gan esbonio techneg newid ymddygiad o ddefnyddio rhagosodiadau sy'n sail i gofrestru di-ofyn neu awtomatig.

Un o astudiaethau achos doethuriaeth Osian oedd archwilio a gwerthuso'r defnydd o gofrestru di-ofyn mewn prifysgolion. Ar ôl gorffen ei ddoethuriaeth, enillodd Osian (gyda Dr Gwenno Griffith a Dr Siôn Jones) Grant Bach gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnal cyfres o weithdai newid ymddygiad ar draws prifysgolion Cymru. Wedi ymuno gyda IAITH eleni, mae Osian yn paratoi hyfforddiant newid ymddygiad a fydd yn cael ei rannu fel rhan o arlwy hyfforddiant ehangach IAITH.

Cysylltwch gydag Osian os ydych chi am drefnu hyfforddiant newid ymddygiad i'ch sefydliad.

Gwasanaethau Dylunio IAITH

Hoffem glywed am eich prosiect, a'ch cynorthwyo i ddal sylw cynulleidfaoedd targed i ddiwallu eich anghenion penodol chi.

Gwasanaethau Dylunio IAITH - YouTube



NEWYDDION IAITH

Dyma gyflwyno aelod newydd tîm IAITH. Mae Bethan wedi bod yn gweithio gyda ni ers mis Ionawr, ac mae eisoes ynghlwm â sawl un o'n prosiectau. Dyma ambell air ganddi am ei chefndir, ei ddiddordebau, a'i dyfodol cyffrous ag IAITH.

Enw: Bethan Maria Williams

Swydd deitl: Rheolwr Prosiectau Hyfforddiant IAITH

Beth yw dy gefndir?: Rwy'n byw yn Sir y Fflint ac yn briod â Gaj. Mae gennym dri o blant. Rydym wedi cynnig gofal fel rhieni maeth am gyfnod o 14 mlynedd. Cyn ymuno ag IAITH bûm yn rhedeg busnes fy hun ac wedyn gweithio fel Athrawes Ymgynghorol i Dechrau'n Deg yn Wrecsam.

Pa feysydd ieithyddol sydd o ddiddordeb iti?: Mae rhianta a'r blynyddoedd cynnar yn bwysig iawn i mi felly mae trosglwyddo iaith yn faes sydd o ddiddordeb mawr. Rwyf wedi cael fy nghyflogi gan IAITH yn flaenorol, cefais y fraint o weithio fel Swyddog Maes TWF rhwng 2011 a 2016. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r dylanwadau cryf sydd wedi fy nghefnogi wrth gael fy magu mewn ardal sydd mor agos at y ffin felly mae Ymwybyddiaeth a Chadernid Iaith yn feysydd ieithyddol sy'n amlwg yn fy mywyd.

Disgrifia dy hun mewn tri gair: Angerddol, hwyliog a chyfeillgar. Rwy'n angerddol ynghylch cadw'r iaith a thraddodiadau Cymreig yn fyw. Rwy'n cael hwyl wrth ddawnsio gyda Dawnswyr Delyn a chanu gyda Côr y Pentan. Rwy'n hoff o sgwrsio felly rwy'n mwynhau gwneud cyfeillion newydd.

TÎM IAITH YN EHANGU

Arloesi yn y maes cynllunio iaith ers 1993
Leading the way in language planning since 1993

GWASANAETHAU DYLUNIO IAITH

Hoffem glywed am eich prosiect, a'ch cynorthwyo i ddal sylw cynulleidfaoedd targed i ddiwallu eich anghenion penodol chi.

Mae IAITH: y ganolfan cynllunio iaith wedi cynnal canolfan ragoriaeth mewn polisi a chynllunio iaith sy'n cyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg a ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol eraill ers 1993. Gall ein arbenigwyr eich cynorthwyo gyda'ch gofynion dylunio Cymraeg yn ogystal â dylunio dwyieithog/uniaith.

Gallwn ddylunio
Posteri, Taflenni a Llyfrynnau, Hysbysebion, Hysbysebion Fideo, Cyflwyniadau PwerBwynt, Cyrsiau Digidol, Postiadau Cyfryngau Cymdeithasol, Cylchlythyron a Chylchgronau, Baneri, Dogfennau PDF.

- Sicrhau canlyniadau gyda chreadigrwydd
- Wedi'i deilwra i'ch anghenion chi
- Yn cefnogi cleientiaid ers 1993
- Bywiogi eich brand

Cysylltwch â ni: post@iaith.cymru

Gwasanaethau Dylunio IAITH - YouTube

Cofrestrwch trwy'r ddolen isod:

Dolen

MAI 2023 | ARGRAFFIAD 8

Arloesi yn y maes cynllunio iaith ers 1993
Leading the way in language planning since 1993

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning